**EITEM AR YR AGENDA: 6**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mehefin 2006**

# CYNLLUN INTEGREDIG RHEOLI RISG – CYNLLUN GWEITHREDU TRYDEDD FLWYDDYN

**Adroddiad gan Paul Claydon,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhellion y Panel Gweithredol yn dilyn yr ymgynghoriad ar "Cynnal y Momentwm" sef 3edd Flwyddyn Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod - ar gyfer 2006/2007.

## Cyflwyniad

**2.** Yn Rhagfyr 2002, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen i ddiwygio a moderneiddio'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gweithredu o'i fewn. Un o elfennau allweddol y rhaglen honno oedd yr angen i awdurdodau tân ac achub lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg (IRMP).

**3.** O'r flwyddyn ariannol 2007/2008 ymlaen, mae'r IRMP yn cael ei ddisodli gan Gynlluniau Lleihau Risg a lansiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar Fawrth 21ain 2006. O'r herwydd, mae bwriadau Cynllun Gweithredu'r 3edd Flwyddyn yn dal yn briodol ac yn berthnasol i'r gwasanaeth tân ac achub am y flwyddyn ariannol hon.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Cyfarfu aelodau'r Panel Gweithredol ar Fai 18fed 2006 i adolygu'r 39 o ymatebion i Gynllun 3edd Flwyddyn yr IRMP a ddaeth i law wedi cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus, a ddaeth i ben yn dilyn ymestyn y dyddiad cau i Fawrth 8fed 2006.

**5.** Diben y papur hwn yw nodi newidiadau arfaethedig y Panel Gweithredol i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu 3edd Flwyddyn wedi iddynt edrych ar yr ymatebion, ac yn ddibynnol ar dderbyn y newidiadau arfaethedig, fabwysiadu "Cynnal y Momentwm" fel cynllun 3edd Flwyddyn yr Awdurdod.

**Y Newidiadau Arfaethedig**

**6.** Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu – Pwynt 1 Blwyddyn 3, oedd yn ymwneud â rhoi canfyddiadau'r adolygiad o'r Peiriannau Arbennig ar waith.

**7.** Cynllun Gweithredu – Pwynt 1 Blwyddyn 3

Bydd yr adran ar Beirannau Deuddiben yn cael ei newid i ddatgan – ***Bydd hyn yn gweld cyflwyno chwech o beiriannau deuddiben pwrpasol i'r Gwasanaeth gyda phedwar peiriant arall yn cael eu haddasu yn beiriannau deuddiben. Bydd y peiriannau hyn yn cael eu lleoli'n strategol drwy'r Gogledd i ddarparu safon cyrraedd o 30 munud. Hefyd, bydd ymholiadau'n cael eu gwneud i weld a oes adnoddau ariannol ar gael a fyddai, yn y tymor hir, yn fodd i'r Awdurdod, yn seiliedig ar risg, ymestyn y ddarpariaeth o beiriannau deuddiben i orsafoedd eraill drwy'r Gogledd.***

**Y Newidiadau Arfaethedig** *(parhad)*

Bydd yr adran ar Dendrau Argyfwng yn cael ei newid i ddatgan – ***Y bwriad yw uwchraddio'r holl offer achub hydrolig sydd ar peiriannau tân rheng flaen. Bydd y gwaith hwn o uwchraddio'n cael ei wneud ar sail asesu risg, ac i ddilyn, byddir yn cael gwared fesul cam ar ddau Dendr Argyfwng (ET). Pan fydd y cam hwn wedi ei orffen, bydd y ddau dendr argyfwng sydd ar ôl yn cael eu diweddaru i ddod yn Unedau Achub Arbennig (Special Rescue Units (SRUs)).***

Bydd yr adran ar beiriannau cyrraedd yn uchel yn cael ei newid i ddatgan – ***Byddwn yn mabwysiadu amser cyrraedd o 20 munud i beiriannau cyrraedd yn uchel ac o'r herwydd, bydd y ddarpariaeth bresennol, sef pedwar peiriant, yn cael ei chadw, gan adolygu'r sefyllfa ymhen deuddeng mis.***

**8.** Mae'r Panel Gweithredol yn argymell cymeradwyo'r chwe phwynt sy'n weddill fel y maent.

**9.** Mae'r Panel Gweithredol hefyd wedi gofyn am fanylion y goblygiadau ariannol a'r gwaith paratoi y byddai ei angen yn y dyfodol agos wrth arwain at gomisiynu peiriant cyrraedd yn uchel arall.

**Y Newidiadau Arfaethedig** *(parhad)*

**10.** Bydd gofyn cael amserlen dynn iawn ar gyfer y broses o gomisiynu peiriant cyrraedd yn uchel newydd yn barod erbyn 2008 i ddod yn lle'r peiriant ag ysgol a throfwrdd sydd ym Mangor:-

- Ymgynghori a chytuno ar y fanyleb erbyn Tachwedd 2006.
- Proses dendro a dyfarnu cytundeb erbyn diwedd Ionawr 2007.
- Derbyn y cerbydwaith erbyn Ebrill 1af 2007.
- Cyfnod o flwyddyn wedyn i adeiladu'r cerbyd a'i gael yn barod erbyn 2008.

Mae Rheolwr Adran y Fflyd wedi cynghori nad oes dim modd ymestyn oes y peiriant ysgol a throfwrdd y tu hwnt i 2008. Cost y broses dendro yw £700.

**11.** Bydd yr ymrwymiad i brynu peiriant cyrraedd yn uchel newydd felly'n gorfod cael ei wneud cyn yr adolygiad pellach a argymhellir gan y Panel Gweithredol.

Yn ymarferol, gan y byddai'r broses gaffael eisoes wedi ei chychwyn, hyd yn oed petai'r adolygiad yn cynnig newidiadau i nifer y peiriannau cyrraedd yn uchel byddai hyn yn golygu:

a) ni fyddai newidiadau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith cyn 2012 pan fydd angen newid y peiriant nesaf ar ôl Bangor.
b) byddai effaith ariannol petai'r Awdurdod yn tynnu'n ôl o'r broses gaffael unwaith y byddai wedi dechrau. O ran graddfa yr effaith ariannol, byddai hynny'n ddibynnol ar i ba raddau y mae'r broses wedi mynd rhagddi ar adeg tynnu'n ôl.

## Argymhellion

**12.** Ystyried newidiadau arfaethedig y Panel Gweithredol, ac yn ddibynnol ar eu cynnwys, fabwysiadu "Cynnal y Momentwm" fel Cynllun Gweithredu 3edd Flwyddyn yr Awdurdod.